Ionawr 2016

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cyfrifon Llywodraeth Leol 2014-15

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Y tîm a gyflawnodd y gwaith oedd John Herniman a Jeremy Saunders.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo'r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol, ynghyd ag archwilwyr penodedig, hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Am ragor o wybodaeth ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: post@archwilio.cymru, neu gweler y wefan www.archwilio.cymru

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2016

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion canlynol: Ffôn 029 2032 0500, e-bost post@archwilio.cymru

# Cynnwys


Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

At ei gilydd, roedd cyrff llywodraeth leol wedi paratoi papurau gwaith a datganiadau ariannol o ansawdd da, er bod safonau wedi dirywio mewn rhai achosion, gyda newidiadau perthnasol yn gorfod cael eu gwneud i fwy o ddatganiadau; er gwaethaf hyn, cyhoeddais farn ddiamod ar gyfer pob corff erbyn 30 Medi 7

At ei gilydd, roedd papurau gwaith i ategu'r cyfrifon o ansawdd da; ond, mae ansawdd papurau gwaith sawl corff wedi dirywio 7

Cynyddodd nifer y cyfrifon yr oedd angen gwneud newidiadau perthnasol iddynt unwaith eto eleni a daeth nifer o faterion eraill i'r wyneb 8

Cyflwynwyd barn ddiamod ar yr holl gyfrifon ond roedd y farn yn achos tri ohonynt yn cynnwys paragraff 'pwysleisio mater' 12

Nid ydym eto wedi ardystio bod rhai archwiliadau wedi'u cwblhau oherwydd problemau heb eu datrys mewn perthynas â chwestiynau gan etholwyr 13

Er bod terfynau amser ar gyfer ffurflenni Cyfrifon Llywodraeth Gyfan heb eu harchwilio wedi gorfod cael eu hymestyn, cafodd mwy o ffurflenni wedi'u harchwilio eu cyflwyno ar amser, er i farn amodol gael ei rhoi ar gyfer un ffurflen eleni 14

Bydd cynigion ar gyfer cau datganiadau ariannol cyrff llywodraeth leol yn gynt dros y blynyddoedd nesaf yn heriol i gyrff a archwilir ac archwilwyr fel ei gilydd, ond bydd yn dod â rhai manteision posibl hefyd 16

# Adroddiad cryno

1 Dyma fy mhumed adroddiad blynyddol ar gyfrifon cyrff llywodraeth leol. Mae'n crynhoi canlyniadau fy ngwaith ar gyfer 2014-15 yn y mathau canlynol o gyrff llywodraeth leol (cyrff a archwilir) yng Nghymru:

Arddangosyn 1

| Cyrff a archwilir | Nifer |
|---|---|
| Awdurdodau unedol | 22 |
| Cronfeydd pensiwn llywodraeth leol | 8 |
| Comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid | 8 |
| Awdurdodau tân ac achub | 3 |
| Awdurdodau parciau cenedlaethol | 3 |
| Cydbwyllgorau | 5[1] |
| Awdurdodau porthladdoedd | 1[2] |

2 Mae cyrff llywodraeth leol yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau ac, wrth wneud hynny, maent yn gwario llawer iawn o arian cyhoeddus. Fel pob corff cyhoeddus, rhaid iddynt lunio set o ddatganiadau ariannol blynyddol (cyfrifon), a chael y rheini wedi'u harchwilio, er mwyn dangos eu stiwardiaeth dros yr arian cyhoeddus a roddir iddynt, a darparu adroddiad ar eu stiwardiaeth ohono.

3 Mae llunio adroddiadau cywir ac amserol yn dasg sylweddol ond yn dasg y mae'n rhaid ei gwneud er mwyn dangos atebolrwydd am warchod a rheoli'r arian cyhoeddus y mae'r sefydliad yn gyfrifol am ei reoli. Gall methu â chyhoeddi cyfrifon cywir ac archwiliedig erbyn y terfynau amser rhagnodedig adlewyrchu'n wael ar y sefydliad, gan danseilio ei drefniadau rheoli ariannol a llywodraethu corfforaethol, yn ogystal â hyder cyffredinol yn y sefydliad.

1 Cafwyd 17 cydbwyllgor y llynedd ond mae 12 o'r rhain naill ai wedi dod i ben neu bellach o dan y trothwy ar gyfer paratoi cyfrifon llawn a dim ond angen archwiliad sicrwydd cyfyngedig arnynt. Nid yw canlyniadau'r archwiliadau sicrwydd cyfyngedig hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

2 Am y tro cyntaf yn 2014-15, roedd yn rhaid i awdurdodau porthladdoedd (yr oedd eu trafodion wedi'u cynnwys yng nghyfrifon yr awdurdodau unedol perthnasol o'r blaen) lunio cyfrifon ar wahân. Roedd yn rhaid cynnal archwiliad llawn yng nghyswllt un o'r rhain. Roedd y gweddill o dan y trothwy ar gyfer paratoi cyfrifon llawn a dim ond archwiliad sicrwydd cyfyngedig oedd yn ofynnol. Nid yw canlyniadau'r archwiliadau sicrwydd cyfyngedig hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

4 Yn dilyn cyflwyno Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, fi yn awr yw'r archwilydd ar gyfer pob un o gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan ddisodli'r trefniadau blaenorol lle roeddwn yn penodi archwilwyr. O'r herwydd, mae'n rhaid imi archwilio'u cyfrifon a chyflwyno barn ar y rhain. Dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, mae'n rhaid i mi archwilio ac ardystio'r cyfrifon, a bodloni fy hun fod y cyfrifon:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y cyrff sy'n cael eu harchwilio;
- yn cydymffurfio â'r holl ofynion deddfwriaethol perthnasol; ac
- wedi cael eu paratoi yn unol â'r arferion cyfrifyddu priodol.

5 Er mwyn llunio set o gyfrifon erbyn y terfyn amser penodedig, sef 30 Mehefin, mae'n rhaid cael trefniadau cydlynu a rheoli prosiect effeithiol ar draws nifer o adrannau a chynghorwyr allanol, ac nid cyfrifoldeb yr adrannau cyllid yn unig mohono. Yn 2014-15, cafodd yr holl gyfrifon eu hardystio gan Swyddogion Cyllid Cyfrifol erbyn y terfyn amser, sef 30 Mehefin.

6 Llwyddais i gyflwyno barn archwilio ddiamod cyn y terfyn amser o 30 Medi ar gyfer yr holl gyrff a archwiliwyd. Roedd barn archwilio tri chorff yn cynnwys paragraff 'pwysleisio mater'. Ynddo rwy'n dwyn sylw'r darllenydd at faterion penodol yr adroddwyd arnynt yn y cyfrifon.

7 Roedd ansawdd y cyfrifon a'r papurau gwaith ategol ar gyfer mwyafrif y cyrff yn debyg i 2013-14. Ond, mewn nifer o achosion, roedd y safonau wedi dirywio, gydag archwilwyr yn mynegi pryderon am safon y papurau gwaith a'r wybodaeth ategol.

8 Yng nghyswllt archwiliadau'r rhan fwyaf o gyfrifon, nodwyd bod angen gwneud nifer o newidiadau ond, yr hyn sy'n peri mwy o bryder, yw'r cynnydd unwaith eto eleni yn nifer y cyrff lle bu'n rhaid diwygio'r cyfrifon mewn perthynas ag eitemau perthnasol. Mae hyn yn dueddiad sy'n peri pryder ac sydd wedi ymddangos dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n codi amheuaeth am ansawdd y gwaith cynhyrchu cyfrifon a'r trefniadau adolygu. Unwaith eto eleni, roedd y meysydd lle roedd angen gwneud y rhan fwyaf o addasiadau yn ymwneud â chyfrifyddu ar gyfer eiddo, peiriannau a chyfarpar, gyda phroblemau neilltuol yn ymwneud â dulliau prisio. Mae angen i'r cyrff hynny sy'n parhau i orfod gwneud newidiadau sylweddol i'w cyfrifon yn dilyn archwiliad adolygu eu prosesau llunio cyfrifon i sicrhau bod camau sicrhau ansawdd ac adolygu digonol yn dod yn rhan o'r broses.

9 Mae terfynau amser cynharach ar gyfer cau ac archwilio cyfrifon yn debyg o ddod yn ofyniad yn y dyfodol. Onid eir i'r afael â'r diffygion yn nhrefniadau rhai cyrff i baratoi cyfrifon sy'n berthnasol gywir a phapurau gwaith ategol amserol, bydd yn effeithio ar eu gallu i gyflawni terfynau amser statudol cynharach.

10 Bydd y cynigion i gwblhau cyfrifon cyrff llywodraeth leol yn gynt dros y blynyddoedd nesaf yn heriol a bydd yn rhaid i'r cyrff a'r archwilwyr fel ei gilydd wneud newidiadau sylweddol. Ar ôl dweud hynny, gall manteision godi o gau cyfrifon yn gynharach, gan gynnwys: cyflwyno Cyfrifon Llywodraeth Gyfan yn fwy prydlon; sicrwydd cynharach yng nghyswllt sefyllfa'r flwyddyn flaenorol cyn gwneud penderfyniadau ariannol pwysig ar gyfer y dyfodol; a mwy o amser ar gael i staff cyllid ei dreulio ar faterion cynllunio a rheoli ariannol eraill i helpu i fynd i'r afael â phwysau ariannol.

11 Er bod terfynau amser ar gyfer ffurflenni Cyfrifon Llywodraeth Gyfan heb eu harchwilio wedi gorfod cael eu hymestyn, cafodd mwy o ffurflenni wedi'u harchwilio eu cyflwyno ar amser er i farn amodol gael ei roi yng nghyswllt un ffurflen eleni.

12 Hefyd, er mwyn ymdopi â'r agenda cyni ariannol, bydd yn rhaid gwneud newidiadau sylweddol i'r ffordd y rheolir ac y llywodraethir materion ariannol y cyrff a archwilir, gan mae'n debyg na fydd y dulliau o reoli materion ariannol, a oedd unwaith yn ddigon da, yn addas i'r diben bellach ar gyfer parhau i ddarparu canlyniadau ariannol cadarn yn y dyfodol.

13 Yn ddiweddarach eleni, byddaf yn cyhoeddi diweddariad ar gydnerthedd ariannol cynghorau yng Nghymru. Bydd yr adroddiad yn edrych ar gadernid trefniadau rheoli a chynllunio ariannol y cynghorau, gan ganolbwyntio ar sut y maent yn gosod eu targedau arbedion a chyllidebau ac wedyn yn eu cyflawni. Bydd yr adroddiad yn cynnwys dangosyddion allweddol perfformiad ariannol, gan nodi'r tueddiadau yng Nghymru a bydd yn defnyddio sgoriau risg i bennu effeithiolrwydd trefniadau cynllunio ariannol, rheolaeth ariannol a llywodraethiant ariannol y cynghorau. Bydd y dadansoddiad hwn yn pennu pa welliannau sy'n ofynnol ac yn helpu i gefnogi cynghorau i fynd i'r afael â'r heriau ariannol anodd y maent yn eu hwynebu.

# Adroddiad manwl

## At ei gilydd, roedd cyrff llywodraeth leol wedi paratoi papurau gwaith a datganiadau ariannol o ansawdd da, er bod safonau wedi dirywio mewn rhai achosion, gyda newidiadau perthnasol yn gorfod cael eu gwneud i fwy o ddatganiadau; er gwaethaf hyn, cyhoeddais farn ddiamod ar gyfer pob corff erbyn 30 Medi

14 O dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau), rhaid i Swyddogion Cyllid Cyfrifol y cyrff a archwilir baratoi ac ardystio cyfrifon erbyn 30 Mehefin sy'n rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar 31 Mawrth ac incwm a gwariant y corff ar gyfer y flwyddyn honno. O dan y Rheoliadau hefyd, rhaid i'r corff a archwilir gymeradwyo, ardystio a chyhoeddi ei gyfrifon yn ffurfiol erbyn 30 Medi. Os methir y terfynau amser ym mis Mehefin neu ym mis Medi, mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r corff sy'n cael ei archwilio gyhoeddi (h.y. eu darparu i'r cyhoedd) datganiad yn esbonio pam nad yw wedi gallu paratoi ac ardystio'r cyfrifon, a darparu manylion unrhyw gamau (gan gynnwys amserlenni) sy'n cael eu cymryd i baratoi ac ardystio'r cyfrifon.

15 Mae paratoi cyfrifon drafft yn broses gymhleth sy'n gofyn am drefniadau rheoli prosiect cadarn. Roedd pob corff wedi paratoi ac wedi ardystio cyfrifon drafft erbyn 30 Mehefin yn unol â'r Rheoliadau.

16 Ar 30 Mehefin, neu oddeutu'r dyddiad hwnnw, mewn cytundeb â'r cyrff sy'n cael eu harchwilio, mae archwilwyr yn derbyn cyfrifon a phapurau gwaith ategol i'w galluogi i wneud eu gwaith archwilio. Mae'r archwilwyr yn cwblhau eu gwaith mewn da bryd er mwyn i'r cyfrifon gael eu hailardystio gan Swyddogion Ariannol Cyfrifol, eu cymeradwyo gan y cyrff sy'n cael eu harchwilio a'u cyhoeddi erbyn 30 Medi.

### At ei gilydd, roedd papurau gwaith i ategu'r cyfrifon o ansawdd da; ond, mae ansawdd papurau gwaith sawl corff wedi dirywio

17 Er mwyn ategu'r cofnodion yn y cyfrifon, ac i sicrhau proses archwilio ddidrafferth, dylai'r cyrff sy'n cael eu harchwilio ddarparu papurau gwaith amserol, cynhwysfawr a chyflawn i ategu eu cyfrifon. Mae'n bwysig bod archwilwyr a chyrff sy'n cael eu harchwilio yn cytuno ar y gofynion o ran papurau gwaith a gofynion archwilio eraill ymlaen llaw er mwyn hwyluso'r broses o gwblhau'r gwaith archwilio ar amser.

18 Mae cyrff sy'n cael eu harchwilio ac archwilwyr wedi parhau i weithio'n galed i sicrhau eu bod i gyd yn deall yr hyn a ddisgwylir, beth sy'n gweithio'n lleol ac i barhau i symleiddio trefniadau yn seiliedig ar y gwersi a ddysgwyd o flynyddoedd blaenorol. Pan fydd y broses yn gweithio'n dda, ceir trafodaeth barhaus ac agored; maent yn trafod materion sy'n codi cyn ymgymryd â'r broses o lunio'r cyfrifon, a thrwy gydol y broses honno. Dengys profiad mai un o'r dulliau mwyaf gwerthfawr o hyd ar gyfer gwella trefniadau yw sesiwn ddysgu ar y cyd yn dilyn cwblhau prosiect lle bydd archwilwyr a rheolwyr yn rhannu eu safbwyntiau mewn ffordd agored am y broses o lunio'r cyfrifon a'u harchwilio ar ôl cwblhau'r broses honno. Mae sesiynau

o’r fath wedi galluogi archwilwyr a rheolwyr i rannu profiadau a safbwyntiau am yr hyn a aeth yn dda a’r hyn nad aeth cystal ac wedi helpu i nodi gwelliannau ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Gall gwelliannau o’r fath gynnwys darparu mwy o eglurder am y gofynion yng nghyswllt papurau gwaith, cael gafael ar wybodaeth amserol a systemau gwybodaeth, amseriad tasgau allweddol ac ati.

19 At ei gilydd, roedd papurau gwaith i gefnogi’r cyfrifon o safon dda. Ond, mewn nifer o gyrff a oedd yn cael eu harchwilio, nododd yr archwilwyr fod rhaid agweddau, neu bob agwedd, ar ansawdd, amseroldeb a chywirdeb y papurau gwaith ategol ar gyfer y cyfrifon wedi dirywio. Mae angen i’r cyrff hyn roi sylw i’r gwendidau a nodwyd gan eu harchwilwyr a gweithio gyda hwy i oresgyn problemau ar gyfer y dyfodol. Mae papurau gwaith gwael neu o safon wael yn rhoi mwy o bwysau ar dimau cyllid y cyrff a archwilir ac archwilwyr ac yn cynyddu’r risg na chaiff y cyfrifon eu cwblhau erbyn y terfyn amser statudol.

20 Lle mae’r trefniadau ar gyfer llunio papurau gwaith cywir ac amserol yn wael, ni fydd y cyrff hyn mewn sefyllfa dda i gyflawni unrhyw ofynion i gau’r cyfrifon yn gynt yn y dyfodol, yr wyf yn rhoi sylwadau arno yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

## Cynyddodd nifer y cyfrifon yr oedd angen gwneud newidiadau perthnasol iddynt unwaith eto eleni a daeth nifer o faterion eraill i’r wyneb

21 Wrth archwilio’r cyfrifon, nid yw archwilwyr yn rhoi sicrwydd llwyr fod y datganiadau ariannol wedi’u datgan yn gywir, ond yn hytrach yn mabwysiadu’r cysyniad o ‘berthnasedd’. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, mae archwilwyr yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol pa un a gawsant eu hachosi drwy dwyll neu wall yn y cyfrifon. Mae gwybodaeth yn berthnasol os gallai ei hepgor neu ei cham-ddatgan ddylanwadu ar ddarllenydd y cyfrifon gan beri iddo ddod i gasgliad anghywir am y corff neu ei sefyllfa ariannol. Mae perthnasedd yn dibynnu ar faint yr eitem neu’r gwall o’i hystyried yn unol ag amgylchiadau penodol ei hepgor neu ei cham-ddatgan. Felly, gellid ystyried bod swm cymharol fach yn berthnasol pe gallai gamarwain neu ddylanwadu ar ddefnyddiwr y cyfrifon ee, gwall yng nghyflog datganedig uwch swyddog.

22 Mae penderfyniad yr archwilydd ynghylch perthnasedd yn fater o farn broffesiynol ac mae sawl ffactor yn dylanwadu ar y penderfyniad gan gynnwys:

- y math o gorff a archwilir;
- natur y gwasanaethau a ddarperir gan y corff;
- gofynion deddfwriaethol; a hefyd
- y wybodaeth ariannol sydd ei hangen ar ddeddfwyr ac eraill sy’n defnyddio’r cyfrifon.

23 Roedd y swm lle yr ystyriwyd bod camddatganiad yn berthnasol os oedd uwchlaw'r swm penodol hwnnw yn amrywio o £6,000 mewn cyrff archwiliedig llai o faint, megis cydbwyllgor, i £24 miliwn mewn cronfeydd pensiwn mawr. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoliadol a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd bennu p'un a fernir bod eitem yn berthnasol ai peidio. Drwy eu gwaith, gall archwilwyr nodi camddatganiadau perthnasol yng nghyfrifon corff a archwilir. Yn y cyfryw achos, bydd yr archwilydd yn gofyn i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol ddiwygio'r cyfrifon er mwyn cywiro'r gwallau. Os na chaiff y camddatganiadau perthnasol eu cywiro, neu os nad yw'n bosibl eu newid am nad oes digon o wybodaeth ar gael, gall yr archwilydd ystyried rhoi barn wedi'i haddasu (h.y. amodol).

24 Caiff camddatganiadau eraill amherthnasol, ond sylweddol serch hynny, eu dwyn at sylw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol hefyd. Mae'r archwilwyr yn gofyn i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol ddiwygio'r cyfrifon er mwyn cywiro gwallau o'r fath. Pan gaiff gwallau a chamddatganiadau sylweddol eraill o'r fath eu dwyn i sylw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol ond heb eu haddasu, bydd yr archwilwyr yn tynnu sylw'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu (cyngor neu ei bwyllgor archwilio, fel arfer) at hynny. Mae'r archwilwyr yn gofyn am esboniad ynghylch pam nad yw'r addasiadau wedi'u gwneud cyn y cymeradwyir y cyfrifon.

25 Yn 2014-15, gwnaeth 30 o'r 50 corff (60 y cant) sy'n cael sylw yn yr adroddiad, addasiadau perthnasol i'w cyfrifon ar ôl archwiliad. Roedd hyn yn gynnydd ar ffigurau'r flwyddyn flaenorol pan oedd yn 32 allan o 61 (52 y cant).

26 Er bod mân wallau yn aml yn debygol o ddigwydd yn y cyfrifon a gaiff eu cyflwyno i'w harchwilio, dylai eitemau perthnasol fod yn llai cyffredin o lawer. Wrth lofnodi'r cyfrifon cyn yr archwiliad, mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn ardystio eu bod yn berthnasol gywir. Mae nifer mor fawr a chynyddol o wallau perthnasol yn tanseilio'r broses ardystio honno ac yn bwrw amheuon ar effeithiolrwydd y broses o lunio'r cyfrifon, sicrhau eu hansawdd a'u hadolygu.

27 Dylai prosesau da ar gyfer llunio cyfrifon ynghyd â threfniadau sicrhau ansawdd ac adolygu mewnol cadarn allu nodi gwallau perthnasol cyn i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol ardystio bod y cyfrifon yn berthnasol gywir. Dylai cyrff lle y gwneir diwygiadau perthnasol adolygu eu trefniadau ar gyfer llunio'r cyfrifon a'u trefniadau sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau y gallant ganfod gwallau o'r fath cyn ardystio'r cyfrifon a'u trosglwyddo i'w harchwilio.

28 Isod, crynhoir y prif feysydd lle y nodwyd camddatganiadau, perthnasol ac amherthnasol, o waith archwilio yn 2014-15 ynghyd â materion ansoddol eraill.

## Eiddo, peiriannau a chyfarpar

29 Mae eiddo, peiriannau a chyfarpar yn dal yn faes lle mae nifer sylweddol o gyrff sy'n cael eu harchwilio yn cael anhawster cymhwyso'r driniaeth gyfrifyddu yn gywir. Mae'r gwallau perthnasol yn y maes hwn o'r cyfrifon wedi cynyddu'n sylweddol ers y llynedd. Cododd rhai o'r problemau cyffredinol y daethpwyd ar eu traws mewn blynyddoedd blaenorol eto, gan gynnwys:

- Methiant i roi cyfrif am eiddo a ail-brisiwyd yn gywir neu eu hailbrisio gan ddefnyddio'r sail anghywir. Cododd mater penodol eleni, lle roedd rhai awdurdodau wedi cynnwys costau ariannu yn anghywir wrth iddynt brisio ysgolion gan ddefnyddio dull cost eu hadnewyddu ar ôl dibrisio. Mae'r problemau hyn a phroblemau eraill yng nghyswllt prisio yn aml yn cael eu priodoli i gyfathrebu gwael rhwng priswyr ac adrannau cyllid. Fel rhan o gynllun y prosiect cau, mae'n hanfodol fod pawb sy'n ymwneud â'r broses yn glir am ddisgwyliadau, amseriad llifoedd gwybodaeth a'r gofynion technegol.
- Nid oedd modd cysoni cofrestrau asedau yn llawn â chofnodion cyfrifyddu, gyda rhai problemau cyffredin, megis rhai asedau yn cael eu cyfrif ddwywaith ac eraill yn cael eu hepgor o'r cyfrifon.
- Materion cyffredinol o ran cyfrifyddu'n gywir am ddibrisiant, cydnabod a rhoi cyfrif am ddiffygion, trin a datgelu gwariant nad yw'n ychwanegu gwerth a dosbarthu asedau.

30 Mae Cod Ymarfer 2014-15 ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod) yn nodi'r materion y dylai awdurdodau lleol eu hystyried wrth roi cyfrif am asedau anghyfredol a ddefnyddir gan ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol. Mae Bwletin 101 LAAP: Accounting for non-current assets used by local authority maintained schools, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2014, yn rhoi canllawiau pellach ar y materion hyn. Er gwaetha'r canllawiau diweddaraf hyn, canfu'r archwilwyr nad oedd pob awdurdod wedi cynnwys asedau ar eu mantolenni a ddylai fod wedi'u cynnwys neu wedi cynnwys eraill na ddylent fod wedi cael eu cynnwys.

31 Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i anheddau cyngor gael eu prisio gan ddefnyddio Gwerth Defnydd Presennol - Tai Cymdeithasol (EUV-SH). Dyma'r swm amcangyfrifedig a ddylai gael ei godi pan fydd eiddo yn newid dwylo rhwng prynwr parod a gwerthwr parod mewn trafodiad hyd braich ar y dyddiad prisio. Yn fy adroddiadau blaenorol ar gyfrifon llywodraeth leol, tynnais sylw at y ffaith bod y maes hwn yn faes lle mae gwallau cyfrifyddu yn aml yn digwydd a bod amrywiadau a gwallau o ran dulliau prisio fel petaent yn arwain at brisiadau gwahanol iawn. Dyma fater o hyd lle byddai mwy o gysondeb mewn perthynas â'r mater yn fuddiol. Yn fy marn i, efallai na fydd unrhyw ddull sy'n defnyddio llif arian gostyngol yng nghyswllt ffrydiau rhent i'r dyfodol yn cydymffurfio â Chod 2015-16 a bydd archwilwyr yn trafod y mater hwn gyda chyrff archwilio perthnasol ar gam cynnar ar gyfer flwyddyn nesaf.

**Darpariaethau**

32 Rhaid i gyrff a archwilir ystyried a all digwyddiadau sy'n digwydd cyn diwedd y flwyddyn arwain at rwymedigaeth yn y dyfodol. Os yw'n fwy tebygol na pheidio y bydd rhwymedigaeth yn crisialu ac y gellir ei hamcangyfrif mewn ffordd ddibynadwy, yna bydd angen darpariaeth ariannol mewn perthynas â'r digwyddiad hwnnw.

33 Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'n siomedig nodi bod nifer o gyrff a gafodd eu harchwilio wedi parhau i sefydlu darpariaethau yn amhriodol ac roedd eraill wedi methu â sefydlu darpariaethau pan oedd angen gwneud hynny.

34 Un thema benodol a ddaeth i'r amlwg (ac sy'n debyg o ddod yn fwy cyffredin yn y dyfodol) yw darpariaethau ar gyfer ailstrwythuro adrannol/sefydliadol a chostau gadael. Wrth gynnal ymarferion ailstrwythuro, mae angen i gyrff a archwilir roi sylw manwl i ofynion Safon 37 y Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol gan fod amseriad ymgynghori a rhoi gwybod am benderfyniadau yn berthnasol wrth benderfynu a oes angen darpariaeth.

**Ailgodi taliadau incwm a gwariant yn fewnol**

35 Mater a gododd y llynedd mewn sawl corff oedd y ffaith nad oedd taliadau a ailgodwyd yn fewnol yn cael eu dileu o wariant gros ac incwm gros. Roedd sawl corff a archwiliwyd wedi gorddatgan eu hincwm gros a'u gwariant gros yn sylweddol am nad oedd eitemau o'r fath wedi'u debydu'n briodol er mwyn dangos yr incwm a'r gwariant allanol gwirioneddol. Er bod y gwariant net wedi'i ddatgan yn deg, roedd yn rhaid gwneud newidiadau perthnasol i'r incwm gros a'r gwariant gros a llawer o'r nodiadau ategol i'r cyfrifon.

36 Braf eleni oedd gweld bod y mater hwn wedi lleihau mewn nifer o gyrff. Ond, gyda'r cyrff hynny sy'n dal â phroblemau, mae angen iddynt sicrhau eu bod yn gwella'r trefniadau i ddileu taliadau mewnol a ailgodir o'r incwm gros a'r gwariant gros cofnodedig.

**Rhoi cyfrif am weithgareddau a reolir ar y cyd**

37 Gwnaethpwyd newidiadau i'r Cod ynghylch y gofynion i roi cyfrif am weithgareddau a reolir ar y cyd. Achosodd hyn anawsterau cyfrifyddu i nifer o gyrff a archwiliwyd yr oedd angen iddynt roi cyfrif yn gywir am weithgareddau a reolir ar y cyd megis cydbwyllgorau, trefniadau cydweithio ac is-gwmnïau. Y prif anawsterau a wynebwyd oedd mewn perthynas â chytuno ar y sail dosrannu costau a darparu gwybodaeth gyfrifyddu amserol i'w chynnwys yn y cyfrifon drafft.

**Cymhareb cyflog canolrifol prif swyddogion**

38 Am y tro cyntaf eleni, roedd yn ofynnol o dan y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio i gyrff a archwilir ddatgelu cymarebau cyflogau prif swyddogion â'r cyflog canolrifol. Roedd angen i nifer sylweddol o gyrff wneud newidiadau i'w cyfrifiadau i gyfrifo'r gymhareb yn gywir.

**Darpariaeth isafswm refeniw**

39 O dan reoliad 21 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 fel y'u diwygiwyd (y Rheoliadau), rhaid i awdurdodau lleol (gan gynnwys yr heddlu, y gwasanaeth tân a'r parciau cenedlaethol) godi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfrif refeniw yng nghyswllt gwariant cyfalaf a wynebwyd mewn blwyddyn flaenorol. Tan 2008, roedd y ddarpariaeth isafswm refeniw yn cael ei chyfrifo yn unol â fformiwla a nodwyd yn y Rheoliadau. Yn 2008, disodlwyd y gofyniad hwn gan Reoliad 22 (Cyfrifo'r ddarpariaeth isafswm refeniw) sy'n datgan bod yn rhaid i awdurdod lleol gyfrifo swm o ddarpariaeth isafswm refeniw ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol y mae'n ei ystyried yn ddarbodus.

40 Ym mis Mawrth 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol, **Canllawiau ar y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw**. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru ystyried y canllawiau hyn. Dywed y canllawiau y dylid pennu swm darbodus y ddarpariaeth fel arfer yn unol â'r egwyddor mai:

'Nod cyffredinol darpariaeth ddarbodus yw sicrhau bod dyled yn cael ei ad-dalu dros gyfnod sydd naill ai'n weddol gymesur â'r cyfnod y mae'r gwariant cyfalaf yn darparu buddiannau ynddo, neu, yn achos benthyca a gefnogir gan Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn rhesymol gymesur â'r cyfnod ymhlyg wrth benderfynu ar y grant hwnnw.'

41 Aiff ymlaen i nodi bod Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y dulliau o wneud darpariaeth ddarbodus yn cynnwys pedwar opsiwn a ddisgrifir yn y canllawiau ond gan nodi bod dulliau sy'n wahanol i'r rhai a ddisgrifir yn bosibl hefyd.

42 Yn ddiweddar, rwyf wedi ysgrifennu at gyrff sy'n cael eu harchwilio yn rhoi fy marn ar faterion a ddylai ac na ddylent, yn fy marn i, gael eu hystyried wrth sefydlu'r ddarpariaeth hon a bydd y timau archwilio yn ystyried y dull a ddefnyddir gan awdurdodau wrth bennu'r ddarpariaeth isafswm refeniw fel rhan o'u gwaith archwilio.

## Cyhoeddwyd barn ddiamod ar yr holl gyfrifon ond roedd y farn ar gyfer tri angen paragraff 'pwysleisio mater'

43 Dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, rhaid i archwilwyr gyhoeddi barn ar y cyfrifon ar ôl cwblhau'r archwiliad. Nod archwilwyr yw cyhoeddi barn erbyn 30 Medi, i alluogi'r cyrff i gyhoeddi cyfrifon archwiliedig erbyn y terfyn amser statudol. Eleni, ac yn well na blynyddoedd blaenorol, cafodd cyfrifon yr holl gyrff a archwiliwyd eu cymeradwyo a rhoddwyd barn archwilio ddiamod arnynt i gyd erbyn y terfyn amser, sef 30 Medi.

44 Pan all yr archwilydd ddod i'r casgliad fod cyfrifon corff yn berthnasol gywir ond ei fod, serch hynny, yn awyddus i dynnu sylw'r darllenydd at eitem a ddatgelwyd ynddynt, mae'n bosibl ychwanegu paragraff pwysleisio mater at yr adroddiad archwilio er mwyn egluro'r mater i'r darllenydd. Er mai barn archwilio ansafonol yw hon, mae'r farn ei hun yn ddiamod o hyd.

45 Roedd tri chorff angen paragraffau pwysleisio mater:

- Cyngor Sir Gâr: i ddwyn sylw at y gwariant anghyfreithlon ar dâl uwch swyddogion yn ffigurau cymharol y flwyddyn flaenorol;
- Cyngor Dinas Casnewydd: i ddwyn sylw at y ffaith nad oedd cyfrifon Newport Transport wedi'u cyfuno; a
- Chyngor Sir Penfro: i ddwyn sylw at y gwariant anghyfreithlon ar dâl uwch swyddogion yn ffigurau cymharol y flwyddyn flaenorol a'r driniaeth gyfrifyddu ar gyfer Pont Cleddau.

## Nid ydym wedi ardystio eto bod rhai archwiliadau wedi'u cwblhau oherwydd problemau heb eu datrys mewn perthynas â chwestiynau gan etholwyr

46 Ar ôl cwblhau'r holl waith mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn benodol, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ardystio bod yr archwiliad wedi'i gwblhau. Cyn rhoi'r farn a chwblhau'r archwiliad, mae nifer o faterion y mae angen i archwilwyr eu hystyried:

- pa un a ddylid cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd neu gymryd unrhyw gamau archwilio ffurfiol eraill; ac
- a ymdriniwyd â phob cwestiwn a/neu wrthwynebiad gan etholwyr yn foddhaol.

47 Os bydd materion yn parhau heb eu datrys, gall yr archwilydd roi barn o hyd ar y datganiadau ariannol pan na chaiff y materion unrhyw effaith berthnasol ar y cyfrifon. Unwaith y bydd y materion wedi cael eu datrys, gall yr archwilydd ailgyflwyno'r farn ac ardystio bod yr archwiliad wedi'i gwblhau unwaith y bydd ei adroddiad terfynol wedi cael ei ystyried gan y corff a oedd wedi'i archwilio a'r cyfrifon wedi'u hailgymeradwyo.

48 Ar gyfer saith corff a archwiliwyd (gan gynnwys dwy gronfa bensiwn gan fod yr archwiliad yn ymwneud â'r awdurdod gweinyddu), ni roddwyd y dystysgrif a ddaeth â'r archwiliad i ben ar yr adeg y rhoddwyd y farn. Roedd hyn yn bennaf oherwydd materion a oedd yn ymwneud â chwestiynau a gwrthwynebiadau gan etholwyr nad oedd wedi'u datrys. Mae faint o gwestiynau y mae cynghorau yn eu cael gan etholwyr yn amrywio rhwng cynghorau gyda rhai ohonynt yn cael nifer sylweddol. Os yw'r dystysgrif yn parhau ar agor o'u herwydd, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y bydd angen unrhyw gamau archwilio ffurfiol yn y pen draw, gan na fydd unrhyw arwyddocâd efallai i'r materion a godwyd. Fodd bynnag, nes y caiff y materion eu hystyried yn llawn, ni ellir ardystio bod yr archwiliadau wedi'u cwblhau.

49 Unwaith y byddaf wedi cyflwyno fy adroddiad terfynol a fydd yn cynnwys unrhyw faterion nad oeddynt wedi'u datrys, yn unol â'r rheoliadau, rhaid i'r corff a archwiliwyd ystyried yr adroddiad hwn ac ail-gymeradwyo'r cyfrifon yn ffurfiol cyn i mi roi fy nhystysgrif yn cau'r archwiliad. Mae'r gwaith ar ddau archwiliad wedi'i gwblhau ers hynny ac mae'r archwiliadau hyn wedi dod i ben.

## Er bod terfynau amser ar gyfer ffurflenni Cyfrifon Llywodraeth Gyfan heb eu harchwilio wedi gorfod cael eu hymestyn, cafodd mwy o ffurflenni wedi'u harchwilio eu cyflwyno ar amser, er i farn amodol gael ei rhoi ar gyfer un ffurflen eleni

50 Mae Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn cyfuno cyfrifon archwiliedig oddeutu 4,000 o sefydliadau yn y sector cyhoeddus er mwyn rhoi darlun cynhwysfawr, seiliedig ar gyfrifon, o sefyllfa ariannol sector cyhoeddus y DU. Mae Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), system gyfrifon a ddefnyddir yn rhyngwladol gan y sector preifat.

51 Rhaid i gyrff yn y sector cyhoeddus ddarparu gwybodaeth Cyfrifon Llywodraeth Gyfan o dan Orchymyn Cyfrifon Llywodraeth Gyfan (Dynodi Cyrff) 2015 Trysorlys EM. Mae hwn yn nodi'r cyrff yng Nghymru sydd i'w cynnwys yng Nghyfrifon Llywodraeth Gyfan 2014-15. Y swyddog cyfuno dynodedig ymhob corff sy'n gyfrifol am ddarparu'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer darparu ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn brydlon i sicrhau bod systemau digonol a barn gyfrifyddu briodol yn ategu'r ffurflen.

52 Y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol sy'n gyfrifol am y farn archwilio gyffredinol ar Gyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Ategir y farn archwilio gan y gwaith a wneir gan archwilwyr y cyrff unigol sy'n cael eu cynnwys yng Nghyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio bloc Cymru o Gyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Ar gyfer 2014-15, roedd trothwy o £350 miliwn yn bodoli ar gyfer y DU. O ran pob corff dynodedig uwchlaw'r trothwy hwn roedd rhaid i'w ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan gael ei harchwilio.

53 Penderfynodd Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15 y byddai'n rhaid i bob awdurdod lleol, awdurdod tân a chomisiynwyr heddlu a throseddu gael archwiliad ni waeth am werth eu datganiadau ariannol statudol ar gyfer 2014-15. O ran ein harchwiliadau o Gyfrifon Llywodraeth Gyfan ar gyfer 2015-16, byddwn yn cydgysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch y trothwy archwilio y bydd yn penderfynu ei osod yng Nghymru.

54 Y terfynau amser yn 2014-15 a bennwyd gan Drysorlys EM ar gyfer cyrff awdurdodau lleol Cymru oedd:


- 10 Gorffennaf 2015 ar gyfer ffurflenni heb eu harchwilio i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru a thimau archwilio lleol; a
- 2 Hydref 2015 ar gyfer ffurflenni archwiliedig i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

55 Ar gyfer y ffurflenni heb eu harchwilio, rhoddodd Llywodraeth Cymru estyniad tan 14 Gorffennaf 2015 i bob awdurdod lleol ac wedyn, ar gyfer pump awdurdod lleol, rhoddodd estyniad arall o ychydig ddyddiau i'r terfyn amser. Dim ond tri chorff a fethodd gyflawni'r terfynau amser estynedig hyn, ond derbyniodd Llywodraeth Cymru yr holl ffurflenni heb eu harchwilio erbyn 22 Gorffennaf 2015.

56 Fel y dangosir yn Arddangosyn 2, er bod nifer yr awdurdodau a gadwodd at derfyn amser Trysorlys EM ar gyfer cyflwyno ffurflenni heb eu harchwilio wedi disgyn 13 y cant eleni, roedd y ganran yn well o ran y rheini a gyflwynodd erbyn y terfynau amser diwygiedig y cytunwyd arnynt gan awdurdodau lleol gyda Llywodraeth Cymru.

57 Hefyd, cafwyd gwelliant sylweddol eleni yng nghanran y ffurflenni archwiliedig a gyflwynwyd erbyn terfyn amser Trysorlys EM, sef 17 y cant o gynnydd. Rhoddwyd barn amodol ar un ffurflen eleni, sef Cyngor Sir Fynwy, a hynny am nad oedd yn gyson â datganiadau ariannol archwiliedig y cyngor.

## Arddangosyn 2 - Ffurflenni Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan




Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o ffurflenni Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan

58 Yn gyffredinol, er bod amseroldeb cyflwyno ffurflenni archwiliedig a heb eu harchwilio wedi gwella (wrth ystyried yr estyniadau a roddwyd i derfynau amser gan Lywodraeth Cymru), yr her i awdurdodau lleol yn y dyfodol fydd cyflwyno ffurflenni o ansawdd da i derfynau amser tynnach y mae Trysorlys EM wedi dweud yn glir y bydd yn eu gosod. Bydd archwilwyr yn ymgysylltu â'u hawdurdod lleol i gefnogi'r gwaith o gyflawni nodau Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan a fydd yn cael eu gosod ar gyfer 2015-16 a thu hwnt.

## Bydd cynigion ar gyfer cau datganiadau ariannol cyrff llywodraeth leol yn gynt dros y blynyddoedd nesaf yn heriol i gyrff a archwilir ac archwilwyr fel ei gilydd, ond bydd yn dod â rhai manteision posibl hefyd

59 Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â chyrff llywodraeth leol ynghylch cyflwyno amserlen gynharach ar gyfer cau i'w chyflwyno fesul cam dros y blynyddoedd nesaf. Canlyniad y cynigion yn y pendraw fydd cyrff llywodraeth leol yn llunio'u cyfrifon erbyn diwedd Mai a'r rheini wedi'u harchwilio erbyn diwedd mis Gorffennaf bob blwyddyn. Yn y bôn, mae hyn yn golygu bod dau fis yn llai ar gael i gyflawni'r gwaith. Crynhoir cynnig yr ymgynghoriad yn Arddangosyn 3.

Arddangosyn 3

| Awdurdodau | Cyfredol tan 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|
| Yr Heddlu, tân a pharciau cenedlaethol | Paratoi a/c 30 Mehefin | Paratoi a/c 31 Mai | Paratoi a/c 31 Mai | Paratoi a/c 31 Mai |
| | Cyhoeddi 30 Medi | Cyhoeddi 31 Gorffennaf | Cyhoeddi 31 Gorffennaf | Cyhoeddi 31 Gorffennaf |
| Awdurdodau unedol | Paratoi a/c 30 Mehefin | Paratoi a/c 30 Mehefin | Paratoi a/c 30 Mehefin | Paratoi a/c 31 Mai |
| | Cyhoeddi 30 Medi | Cyhoeddi 31 Awst | Cyhoeddi 31 Awst | Cyhoeddi 31 Gorffennaf |

Ffynhonnell: Ymgynghoriad Cynulliad Cymru ar gau yn gynt

60 Bydd y gwaith cynllunio ar gyfer cyflwyno'r amserlen ddiwygiedig hon yn llwyddiannus yn gofyn am gydgysylltu agos rhwng cyrff a archwilir a'u harchwilwyr lleol, a bydd yn heriol i bob un ohonom.

61 Yn ddiweddar, rwyf wedi cynnal nifer o seminarau dysgu ar y cyd. Y nod oedd rhannu gwersi gan gyrff sydd wedi llwyddo i newid prosesau a chau cyfrifon a chael y rheini wedi'u harchwilio i amserlen dynnach. Nid oedd y seminarau hyn yn canolbwyntio ar brosesau manwl ond, yn hytrach, ar y newidiadau sefydliadol a diwylliannol sy'n ofynnol i ddechrau'r siwrnai. Fodd bynnag, rwy'n bwriadu cynnal rhagor o seminarau a gweithdai dros y blynyddoedd nesaf i drafod yr agweddau mwy manwl o gau yn gynt. Bydd gwybodaeth am y digwyddiadau hyn ar gael ar ein gwefan a bydd mwy yn cael ei hychwanegu dros amser (www.archwilio.cymru/cy/digwyddiadau/cau-cyfrifon-yn-gynt).

62 Er bydd cau yn gynt yn waith heriol, mae manteision posibl i gyrff a archwilir a'r sector cyhoeddus yn gyffredinol. Yn ogystal â llunio Cyfrifon Llywodraeth Gyfan yn fwy amserol, dylai sefydliadau unigol weld manteision mewn meysydd megis:

- adroddiadau ariannol mwy amserol yn fewnol ac i randdeiliaid ehangach;
- sicrwydd cynharach ynghylch sefyllfa'r flwyddyn flaenorol cyn cychwyn ar benderfyniadau ariannol mawr ar gyfer y dyfodol;
- gall staff cyllid dreulio mwy o amser yn mynd i'r afael â'r gwaith cynllunio a rheoli ariannol ehangach sy'n ofynnol i fynd i'r afael â mwy o bwysau ariannol; ac
- mae adolygu systemau ariannol gyda'r nod o gau yn gynt yn aml yn arwain at welliannau mewn rheolaethau ariannol.

63 Bydd angen i archwilwyr a chyrff a archwilir ddechrau ystyried gofynion yr amserlen cau yn gynt a sut y gellir ei chyflawni. Un o ragofynion gallu delio â'r her newydd hon yw parhau i wella ansawdd cyfrifon a phapurau gwaith er mwyn mynd i'r afael â'r pwyntiau a wnaed yn flaenorol yn yr adroddiad hwn.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru